



# EAS

Education Achievement Service  
for South East Wales  
Gwasanaeth Cyflawni Addysg  
i Dde Ddwyrain Cymru

## Y Strategaeth Ranbarthol a Chanllawiau ynghylch Dysgwyr Mwy Galluog





# Cynnwys

		Rhif y dudalen
1	Gweledigaeth	2
2	Diben strategaeth y GCA	2
3	Cyd-destun a sail resymegol	3
4	Arweinyddiaeth	3
5	Pwy yw'r dysgwyr mwy galluog?	4
6	Adnabod dysgwyr mwy galluog	5
7	Tracio a gosod targedau	6
8	Parhad a dilyniant	8
9	Safonau a chyflawni	8
10	Cwricwlwm, addysgeg ac asesu	10
11	Cymorth ac ymyrraeth	12
12	Partneriaethau a chydweithio	13

## 1. Gweledigaeth

Mae'r GCA wedi ymrwymo i ddarparu cymorth a her i ysgolion a lleoliadau er mwyn gwella darpariaeth a safonau ar gyfer dysgwyr mwy galluog ledled y rhanbarth. Yn ôl y strategaeth a'r dogfennau canllawiau, dylai ysgolion a lleoliadau bennu disgwyliadau uchelgeisiol ar gyfer dysgwyr mwy galluog fel y gallant gyflawni canlyniadau sy'n cyd-fynd â meincnodau cenedlaethol ynghylch perfformiad, neu'n rhagori arnynt. Mae'r strategaeth yn annog ysgolion a lleoliadau i sicrhau eu bod yn rhoi sylw priodol i sefydlu diwylliant sy'n ysbrydoli a chymell dysgwyr mwy galluog i fod yn uchelgeisiol ac yn annog dysgwyr.

Mae'r strategaeth hon yn diffinio dysgwyr mwy galluog fel hyn:

*'Plant a phobl ifanc sydd ag un neu ragor o alluoedd wedi datblygu'n sylweddol uwch na'u grŵp blwyddyn neu sydd â'r potensial i ddatblygu'r galluoedd hyn ac i gyflawni ar y lefelau uchaf trwy gyfrwng cyfleoedd dysgu heriol a chwricwlwm mwy cyfoethog'*

Felly, mae'r diffiniad yn cwmpasu'r dysgwyr hynny sydd eisoes yn cyflawni ar y lefelau uchaf ac yn cael y graddau/lefelau/deilliannau uchaf, ynghyd â'r sawl sydd efallai yn tanberfformio ar hyn o bryd neu sy'n wynebu rhwystrau rhag dysgu.

## 2. Diben strategaeth y GCA

Mae'r strategaeth wedi'i sefydlu i gynorthwyo pob ysgol a lleoliad ledled y rhanbarth i ddatblygu eu polisi eu hunain i gynorthwyo'r grŵp hwn o ddysgwyr, yn cynnwys y rhai sy'n wynebu rhwystrau rhag dysgu. Mae'r strategaeth yn cynnwys naw agwedd, sydd, gyda'i gilydd, yn sail i arweinyddiaeth effeithiol sy'n sicrhau gwelliannau a chanlyniadau rhagorol ar gyfer dysgwyr mwy galluog. Dyma'r naw:



Gall ysgolion a sefydliadau ddefnyddio'r strategaeth fel fframwaith i adolygu a datblygu eu polisïau a'u harferion eu hunain i gynorthwyo dysgwyr mwy galluog. Gall hefyd lywio trefniadau gwaith clystyrau, annog rhannu gwybodaeth ynghylch y grŵp hwn o ddysgwyr, a chynorthwyo â chydweithio rhwng ysgolion a chyfnodau.

### 3. Cyd-destun a sail resymegol

Mae diwallu anghenion dysgwyr mwy galluog yn rhan o agenda'r polisi addysg cenedlaethol ers blynyddoedd lawer yng Nghymru, yn benodol trwy gyfrwng cyhoeddi *Cwricwlwm o gyfle: datblygu potensial yn berfformiad* (ACCAC, 2003), *Cyflawni'r Her: Safonau ansawdd mewn Addysg ar gyfer Dysgwyr Mwy Galluog a Thalentog* (LIC/NACE, 2008), sefydlu rhwydweithiau SEREN a thrwy'r sylw a roddir i ddysgwyr mwy galluog yn Fframwaith Arolygu Estyn. Yn fwy diweddar, mae cymorth i ddysgwyr mwy galluog wedi cael sylw mewn adolygiadau thematig megis *Darpariaeth ar gyfer Disgyblion mwy Galluog a Thalentog ar draws Cymru* (LIC, 2016) ac adolygiadau thematig Estyn. Mae nifer o ysgolion yng Nghymru yn defnyddio'r Safonau Ansawdd i adolygu a gwella eu darpariaeth a'u canlyniadau ar gyfer dysgwyr mwy galluog, ac maent wedi ennill Gwobr Her NACE.

Mae'r strategaeth hon yn deillio o waith datblygu gydag ysgolion ar draws y rhanbarth a thrwy gyfrwng Grŵp Strategaeth y GCA ynghylch Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog sy'n cynnwys penaethiaid ac uwch arweinyddion o groestoriad o gyfnodau a sectorau. Fe wnaeth y grŵp strategaeth gydweithio â'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Abl mewn Addysg (NACE) yn y lle cyntaf i ddatblygu braslun o'r ddogfen.

Yr egwyddor sy'n sail i'r strategaeth hon yw'r ffaith mai gwybodaeth fanwl am ddysgwyr, addysgu rhagorol, cwricwlwm cyfoethog sydd wedi'i gynllunio'n dda, disgwyliadau a dyheadau uchelgeisiol yw conglfaen darpariaeth ragorol ar gyfer dysgwyr mwy galluog. Mae Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu ac Arweinyddiaeth y GCA yn adnodd i gynorthwyo ysgolion i weithredu'r strategaeth. Mae'r Safonau Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn sail i'r fframwaith hwn.

### 4. Arweinyddiaeth

Nodweddion amlwg ysgolion a lleoliadau sy'n sicrhau fod darpariaeth dda ar gyfer dysgwyr mwy galluog:

- Diwylliant o ddisgwyliadau uchelgeisiol ynghylch bob dysgwr;
- Cydnabod fod dysgwyr mwy galluog yn grŵp penodol sydd ag anghenion dysgu penodol;
- Arweinyddiaeth sy'n sicrhau fod addysgeg y cwricwlwm a chymorth ynghylch y cwricwlwm yn ystyried anghenion dysgu a chymdeithasol y grŵp hwn o ddysgwyr.
- Mae uwch arweinyddion yn gwybod am y data hanesyddol a phresennol sy'n ymwneud â pherfformiad disgyblion mwy galluog a statws darpariaeth ar eu cyfer yn eu hysgol. Mae yn sicrhau y caiff targedau uchelgeisiol eu gosod ar lefelau carfanau o ddysgwyr a dysgwyr unigol mewn cymhariaeth â meincnodau cenedlaethol a pherfformiad ysgolion tebyg;
- Mae dysgwyr yn atebol am berfformiad yr holl ddysgwyr, yn cynnwys y rhai mwy galluog, a byddant yn clustnodi adnoddau i gynorthwyo i sicrhau gwelliant;

- Caiff dysgwyr mwy galluog a thalentog eu cynnwys fel maes gweladwy yn natblygiad a chynlluniau ysgolion a lleoliadau, ac ym mholisiâu ysgolion.
- Mae uwch arweinyddion yn gyfrifol am addysg dysgwyr mwy galluog a'r cymorth a roddir iddynt, hyd yn oed ble ceir cydlynedd dysgwyr mwy galluog a staff a llywodraethwyr penodol i hyrwyddo anghenion dysgwyr mwy galluog sy'n ddifreintiedig.
- Dylai'r cydlynedd dysgwyr mwy galluog a thalentog fod â disgrifiad swydd eglur a realistig a dylai gael ei gynorthwyo gan uwch arweinwyr a chael mynediad atynt wrth gyflawni ei waith.

Bydd deall a bod yn ymwybodol o'r sefyllfa genedlaethol mewn perthynas â chynorthwyo dysgwyr mwy galluog a thalentog yn helpu i lunio dulliau a pholisiâu yn yr ysgol. Mae'r polisiâu cenedlaethol mwyaf diweddar a pherthnasol yn cynnwys:

**Llywodraeth Cymru** Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl 2017-21 (gweler tudalen 18, cynllun gweithredu)

<http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/education-in-wales/?lang=cy>

Dogfen **Llywodraeth Cymru** – Safonau Ansawdd mewn Addysg i Ddysgwyr mwy Galluog a Thalentog (2008). Mae'n cynnwys pecyn cymorth ynghylch hunanwerthuso.

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131016-meeting-the-challenge-cy.pdf>

Dogfen **Estyn** – Cefnogi dysgwyr mwy abl a dawnus mewn ysgolion uwchradd Mehefin 2012

<https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/cefnogi-disgyblion-mwy-abl-dawnus-mewn-ysgolion-uwchradd-mehefin-2012>

Gwobr Her **NACE**

<http://www.nace.co.uk/challenge-award>

## 5. Pwy yw'r dysgwyr mwy galluog?

Fel y nodwyd eisoes, at ddibenion y strategaeth ynghylch dysgwyr mwy galluog, mae'r GCA wedi nodi'r diffiniad canlynol o ddysgwyr mwy galluog:

*'Plant a phobl ifanc sydd ag un neu ragor o alluoedd wedi datblygu'n sylweddol uwch na'u grŵp blwyddyn neu sydd â'r potensial i ddatblygu'r galluoedd hyn ac i gyflawni ar y lefelau uchaf trwy gyfrwng cyfleoedd dysgu heriol a chwricwlwm mwy cyfoethog'*

Felly, mae'r diffiniad yn cwmpasu'r dysgwyr hynny sydd eisoes yn cyflawni ar y lefelau uchaf ac yn cael y graddau uchaf, ynghyd â'r sawl sydd efallai yn tanberfformio ar hyn o bryd neu sy'n tanberfformio oherwydd rhwystrau rhag dysgu. Caiff y diffiniad ei osod yng nghyd-destun bob ysgol hefyd.

Yn aml iawn, ond nid bob tro, bydd gan y dysgwyr hyn sgiliau iaith uwch a gallu symbolaidd cynnar.



Wrth gwrs, bydd nodweddion ac anghenion dysgu dysgwyr mwy galluog yn wahanol yn ystod camau datblygiadol gwahanol ac ar wahanol adegau o'u haddysg, felly efallai hefyd bydd rhai dysgwyr y mae eu potensial heb ei wireddu oherwydd rhwystrau rhag dysgu.

Mae hefyd yn ddefnyddiol i nodi dysgwyr mwy galluog fel:

- Y rhai oedd â chyrhaeddiad uchel blaenorol
- Y rhai a nodir gan yr ysgol fel disgyblion sy'n fwy galluog mewn un neu ragor o bynciau
- Y rhain sydd wedi bod yn rhan o'r grŵp sy'n cyflawni'r rhagorol rywbryd neu'i gilydd yn ystod eu haddysg ac sydd efallai yn tanberfformio ar hyn o bryd
- Y rhai sy'n cyflawni orau ym mhob grŵp addysgu
- Dysgwyr hynod o alluog

Yn ychwanegol, gall dysgwyr mwy galluog ddangos rhinweddau cyson megis:

- Dyfalbarhad a hunangred
- Ymdrechu ac ymarfer
- Ymdopi ag anawsterau
- Cymorth a chyfleoedd i ddatblygu hyd eithaf eu gallu.

Pwrpas rhannu diffiniad o ddysgwyr mwy galluog yw sicrhau y dylai hynny lywio cynlluniau gweithredu, addysgu a chymorth, ac yn rhywbeth y gall athrawon gyfeirio ato i ddeall anghenion grwpiau penodol o blant. Mae'n fan cychwyn ac yn fan terfyn pan fydd arferion addysg ac asesu da yn datgelu beth gall dysgwyr ei wneud pan fyddant yn perfformio ar eu gorau.

## 6. Adnabod dysgwyr mwy galluog

Mae nodi'r dysgwyr hynny sydd efallai yn fwy galluog yn rhan o adnabod pob dysgwr yn dda mewn ysgol a phennu a deall eu cryfderau a'r meysydd mae angen iddynt eu datblygu. O'r herwydd bydd nifer y dysgwyr mwy galluog mewn dosbarth neu ysgol a lleoliad yn amrywio a bydd yn broses reolaidd ac ailadroddol. Yn anad dim, mae angen i ysgolion a lleoliadau adnabod eu dysgwyr mwy galluog gan ddefnyddio amrywiaeth briodol o wybodaeth ynghyd â thrafodaeth â chydweithwyr, rhieni ac ysgolion sy'n rhan o'r clwstwr. I wneud hyn, bydd ar bob ysgol angen dull trylwyr o nodi ei charfan o ddysgwyr mwy galluog, a bydd rhaid i'r holl staff gytuno arno.

Dylai dysgwyr ddefnyddio arferion systematig i adnabod dysgwyr mwy galluog yn llwyddiannus, sydd yn:

- Ymateb i sefyllfa gymdeithasol ac economaidd yr ysgol, yn cynnwys rhyw, ethnigrwydd, anghenion addysgol arbennig a/neu anabledau ac anfantais.
- Cwmpasu'r sawl a all fod yn tangyflawni a'r rhai sy'n cyflawni'n rhagorol hefyd
- Cynnwys adnabod dysgwyr hynod o alluog - y sawl sy'n gallu cyflawni neu berfformio ar y lefelau uchaf un
- Seiliedig ar amrywiaeth o feini prawf cadarn eu sail ym mhob pwnc a chwrs
- Gwneud defnydd effeithiol ynghylch cyflawni ac asesiadau eraill a pherfformiad

Yn ychwanegol, mae ysgolion eisoes yn meddu ar ddata sylweddol ynghylch dysgwyr unigol, felly fe ddylent:

- Dadansoddi data sydd eisoes yn bodoli ynghylch y dysgwyr hynny sy'n gallu cyflawni'n rhagorol mewn un neu ragor o feysydd, yn cynnwys data ynghylch cyflawniad a chyrhaeddiad blaenorol
- Cydweithio ag ysgolion yn y clwstwr i adolygu data sy'n berthnasol i bontio

Yn achos pontio o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2, o gyfnod allweddol dau i gyfnod allweddol 3, o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4 ac o gyfnod allweddol 4 i gyfnod allweddol 5 / astudiaethau ôl-16, dylai ysgolion/lleoliadau sicrhau fod ganddynt y canlyniadau asesu diweddaraf ar gyfer dysgwyr, yn cynnwys gwybodaeth hanesyddol.

Yn dilyn adnabod dysgwyr mwy galluog, dylai arweinyddion ysgolion fireinio targedau ynghylch perfformiad i sicrhau y caiff disgwyliadau eu cyflawni.

## 7. Tracio a gosod targedau

Man cychwyn hunanwerthuso a gwella ysgolion yw dadansoddiad cywir o ddata hanesyddol a data presennol. I wella canlyniadau ar gyfer dysgwyr mwy galluog, mae'n bwysig gwerthuso eu perfformiad a'u cyflawniad mewn perthynas ag ysgolion tebyg ar lefelau ysgolion cyfan a charfanau, yn ogystal â meincnodau cenedlaethol a mesurau ynghylch cynnydd ble maent yn bodoli.

Dylai dysgwyr ystyried y data ynghylch pob dysgwr mwy galluog, yn cynnwys data ynghylch y canlynol:

- Y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim
- Ar sail rhyw
- Y rhai sydd ag anghenion arbennig hefyd
- Y rhai sydd o grwpiau ethnig gwahanol
- Y rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol
- Dysgwyr hynod o alluog sy'n perfformio gryn dipyn yn well na'u grŵp blwyddyn mewn un neu ragor o bynciau.

Dylent ddefnyddio'r un mesurau â'r rhai a ddefnyddir i wneud cymariaethau rhwng ysgolion.

- Dadansoddi set data diweddaraf yr ysgol yn ymwneud â mesurau ynghylch canlyniadau uwch. Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen ar lefel 6 neu'n uwch, lefelau 5 neu'n uwch yn y cyfnod allweddol, lefelau 6 a 7 neu'n uwch yng nghyfnod allweddol 3, graddau TGAU A ac A\* a graddau Safon Uwch A ac A\* (neu gyfwerth).
- Archwilio tueddiadau ynghylch perfformiad dros gyfnod penodol
- Gwerthuso darpariaeth a chanlyniadau ar gyfer dysgwyr mwy galluog gan nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu fel rhan o brosesau hunanwerthuso ysgol gyfan er mwyn nodi blaenoriaethau cywir ar gyfer cynllunio datblygiad ysgolion.

Dylai ysgolion a lleoliadau bennu targedau uchelgeisiol ar gyfer y dysgwyr. Mae gan y GCA ganllawiau manwl ynghylch prosesau gosod targedau a threfniadau rhanbarthol effeithiol.



Mae systemau monitro a gosod targedau cadarn yn sail i addysgeg dda a chynnydd dysgwyr. Maent yn sicrhau fod dysgwyr yn cyflawni'r safonau y gallant eu cyflawni a sicrhau eu bod yn cyflawni'n rhagorol trwy gyfrwng cwricwla ac addysgu priodol.

O ganlyniad, dylai ysgolion adolygu eu systemau presennol i sicrhau eu bod yn addas i'w diben, yn rhannu gwybodaeth â staff ynghylch cynnydd disgyblion unigol sy'n fwy galluog ac i ddylanwadu ar a llywio addysgu ac ymyriadau.

Dylid ystyried y cwestiynau canlynol ynghylch cynnydd dysgwyr mwy galluog:

- A yw canlyniadau cyrhaeddiad hanesyddol yn cyd-fynd â chanlyniadau cyrhaeddiad ysgolion a lleoliadau tebyg neu'n well na hynny?
- Pa gamau gweithredu a wnaiff arwain at gyflawniad gwell a pha gerrig milltir ynghylch sicrwydd ansawdd y gellir eu sefydlu?
- A yw dysgwyr mwy galluog yn gwneud yr un cynnydd neu gynnydd gwell na dysgwyr eraill ac a yw hyn yn wir beth bynnag fo'r grŵp o ddysgwyr?
- A yw targedau wedi'u pennu ar gyfer bob grŵp blwyddyn a bob pwnc?
- A oes unrhyw bynciau neu grwpiau blwyddyn ble mae mesurau cynnydd a chyflawniad yn is na targedau ysgol gyfan a pha gamau penodol sydd yn eu lle i fonitro a mesur gwelliant?
- A yw'r targedau wedi'u cyfathrebu'n effeithiol i arweinyddion canol ac a ydynt wedi gweithredu i wneud newidiadau sy'n arwain at ragor o welliannau?

### **Tracio cynnydd a gwella cyflawniad**

Dylai ysgolion a lleoliadau:

- Sefydlu system ble mae'r cynllunio yn cynnwys amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant eglur
- Cyflwyno cyfleoedd asesu cynlluniedig a rheolaidd i ganfod beth sydd wedi'i ddysgu
- Sefydlu prosesau i safoni a chymedroli safonau yn yr ysgol a rhwng ysgolion
- Mireinio gwybodaeth asesu dysgwyr mwy galluog i wahaniaethu rhwng y sawl sydd wedi cyflawni safon ofynnol ar gyfer dysgwyr mwy galluog a'r sawl sydd â dealltwriaeth fanylach sy'n caniatáu iddynt drin, defnyddio a gweithredu syniadau yn effeithiol
- Cyflwyno arferion sicrwydd ansawdd ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn academaidd i sicrhau fod disgwyliadau yn ddigon uchel a sicrhau na yw addysgu yn cyfyngu ar ddysgu
- Rhannu meini prawf llwyddiant â dysgwyr
- Defnyddio data i fonitro cynnydd dygwyr a'u cyflawniad ar adegau rheolaidd
- Gweithredu pan na fydd cyflawniad yn ddigon dda yn achos grwpiau blwyddyn, pynciau neu ddsbarthiadau
- Darparu cyfleoedd ychwanegol y tu allan i ddsbarthiadau i ehangu dysgu o fewn y cwricwlwm a thu hwnt iddo
- Sicrhau y caiff cynnydd a chyflawniad unigolion ei dracio yn fanwl
- Rhannu gwybodaeth am gynnydd cyflawniad â dysgwyr
- Rhoi adroddiadau rheolaidd i rieni ynghylch cyflawniad a chynnydd

## 8. Parhad a dilyniant

Mae angen i ddysgwyr mwy galluog brofi parhad a dilyniant yn eu dysgu am bwyntiau pontio allweddol rhwng ac o fewn cyfnodau allweddol. Dylai strategaethau cytunedig i ategu parhad a dilyniant gael eu gweithredu i helpu i sicrhau cynnydd o ran dysgu, ar sail cyrhaeddiad blaenorol.

Dylai arweinwyr nodi perfformiad blaenorol dysgwyr mwy galluog yn gynharach er mwyn cynllunio'r broses pontio yn effeithiol, gosod targedau yn gywir a chychwyn tracio dysgwyr. Dylid gochel rhag tanamcangyfrif gallu dysgwyr yn ystod unrhyw gyfnod allweddol a'r cynnydd y gallant ei gyflawni. Dylai hyn gynnwys sicrhau fod dysgwyr yn cael eu cyflwyno'r gynnar i gwricwlwm newydd neu estynedig trwy weithgareddau'r clwstwr, a thrwy ymgysylltu â staff addysgu a dysgwyr eraill ar adeg pontio o un ysgol i un arall.

Dylai strategaeth ystyried cynlluniau i ddarparu profiad addysgol blaengar sy'n arwain at ganlyniadau A ac \*A yn y dyfodol a chyflawni A ac \*A neu ganlyniadau cyfwerth mewn cymwysterau ôl-16. Os oedd dysgwr ar un adeg yn rhan o grŵp sy'n cyflawni' rhagorol ond mae wedi gadael y grŵp, mae angen i ysgolion archwilio strategaethau i chwalu rhwystrau i helpu'r dysgwr i wneud cynnydd yn gyflymach fel gall ailgychwyn cyflawni'r rhagorol.

Ar adeg pontio, bydd gwybodaeth am gyrhaeddiad blaenorol dysgwyr yn hwyluso'r dewis o grwpiau addysgu, arlwy'r cwricwlwm, man cychwyn a chanlyniadau wedi'u targedu yn y dyfodol. Mae'n bwysig cynnwys dewis o gyrsiau a wnaiff arwain at gymwysterau priodol y cyflawnir graddau uwch ynddynt. Bydd hyn yn golygu y caiff cyflawniad blaenorol a photensial yn y dyfodol eu cyflawni.

Cyn i ddysgwyr bontio, dylai ysgolion a lleoliadau gydweithio i:

- Rannu gwybodaeth ynghylch cyrhaeddiad bob dysgwr
- Adnabod dysgwyr sy'n cyflawni'n rhagorol
- Adnabod dysgwyr ychwanegol sydd efallai â'r potensial i gyflawni'n well na'r hyn mae'r canlyniadau diweddaraf yn ei awgrymu
- Sefydlu proffil o ddysgwyr mwy galluog ar gyfer y grŵp blwyddyn a chynllun y cwricwlwm
- Gosod targedau ar gyfer dysgwyr unigol a wnaiff uchafu cynnydd o fewn y flwyddyn ac ar draws y cyfnod allweddol
- Gosod targedau ynghylch cyrhaeddiad sy'n arwain at y canlyniadau gorau ym mhob pwnc, nid ym mhynciau cryfaf y dysgwyr, ble gellir gwneud hynny
- Cyfathrebu'r disgwyliadau wrth arweinyddion canol ac athrawon dosbarthiadau
- Cyfathrebu'r disgwyliadau wrth ddysgwyr unigol a'u rhieni
- Sefydlu prosesau Cynllunio Disgybl-Ganolog

## 9. Safonau a chyflawni

I gynorthwyo dysgwyr mwy galluog i wneud cynnydd a chyflawni lefelau rhagorol o gyrhaeddiad, dylai ysgolion a lleoliadau ddeall yn glir beth yw'r safonau a'r disgwyliadau o fewn arlwy eu darpariaeth a beth yn union yw dysgu a chyflawni eithriadol o dda neu

garlam. Mae deall canlyniadau a lefelau, defnyddio canllawiau cyrff dyfarnu ac asesiadau ffurfiol yn allweddol er mwyn gallu adnabod cynnydd dysgwyr. Bydd hyn yn ei dro yn caniatáu i ddysgu estynedig ac adnoddau gael eu datblygu a'u darparu er mwyn cyflawni'r disgwyliadau hynny.

Mae gweithdrefnau sefydledig ar gyfer safoni a chymedroli yn nodwedd allweddol o ddilysu cyflawniad yn yr ysgol a rhwng ysgolion, er mwyn cadarnhau'r meincnodau a lefelau canlyniadau. Yn ychwanegol, rhai i dracio a chofnodi cyflawniad yn gywir ar lefelau modiwlau a chymwysterau cyfan fod yn gyson â'r lefelau cyflawniad hyn.

Ar lefel y dosbarth, dylai athrawon a staff ategol wybod beth gall dysgwyr ei wneud yn barod a'r safonau maent wedi'u cyflawni yn y gorffennol, a'u potensial i'r dyfodol hefyd. Hefyd, pan fydd dysgwr yn rhagori mewn un maes, bydd yn bwysig ceisio cyflawni safonau tebyg yn holl feysydd eraill y cwricwlwm. Mae cydweithio rhwng athrawon a rhwng meysydd pynciau yn nodwedd allweddol o'r gydnabyddiaeth hon, a dylai cynllunio ddigwydd i gau'r bwch rhwng gallu a chyflawniad ar lefel uchel ym mhob pwnc. Gellir cynorthwyo i wneud hyn trwy roi targedau meintiol eglur i ddysgwyr mwy galluog ynghylch elfennau penodol o'u haddysg, yn ogystal â chyflawniad cyffredinol.

Gall y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Dysgu helpu athrawon ac arweinyddion i ffurfio'r bwriad hwn yn yr adrannau sy'n ymwneud ag *Addysgeg, Hyrwyddo Dysgu, Cynnydd a Safonau, ac Addysgeg, Dylanwadu ar Ddysgwyr, Gwybodaeth am Bynciau, Her, Disgwyliadau a Gwahaniaethu*. Mae'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Dysgu yn darparu fframweithiau manwl sydd wedi'u mapio i'r safonau proffesiynol newydd fel gall athrawon ac arweinyddion ddatblygu arferion sy'n diwallu anghenion bob dysgwr, yn cynnwys y rhai mwyaf galluog.

Bydd y safonau proffesiynol presennol ynghylch addysgu ac arweinyddiaeth yn flaenllaw mewn unrhyw gymorth i ddysgwyr.

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170901-professional-standards-for-teaching-and-leadership-en.pdf>

Yn ychwanegol, dylai ysgolion a lleoliadau fod â pholisïau eglur ynghylch safonau a chymorth i ddysgwyr mwy galluog, a dylai hynny gynnwys yr agweddau canlynol ar addysgu:

Dylai athrawon:

- Roi trosolwg i ddysgwyr o'r amcanion dysgu a'r meini prawf llwyddiant ar gyfer rhaglen astudio a fydd yn adlewyrchu perfformiad uchel
- Rhoi cyfleoedd i ymestyn dysgu ym mhob gwers.
- Rhoi gwybodaeth i ddysgwyr am dasgau craidd a thasgau mwy heriol sy'n gysylltiedig â meysydd dysgu fel y gallant wneud dewisiadau sy'n adlewyrchu eu cynnydd eu hunain a chyrhaeddiad cyfredol.
- Datblygu sgiliau i hunanasesu, asesu, golygu a gwella'r gwaith gan ddefnyddio'r meini prawf llwyddiant.
- Dilynnu cynllun asesiadau ffurfiol sy'n profi sgiliau craidd ac uwch.
- Yn dilyn asesiad ffurfiol, rhowch gyfleoedd i ddysgwyr nodi camgymeriadau a gwella'r gwaith.

- Annog asesu cymheiriaid a chydweithredu i wella gwaith ysgrifenedig ac ymestyn syniadau.
- Datblygu gallu dysgwyr i ddefnyddio adborth gan asesuadau i ddeall perfformiad personol a chymryd cyfleoedd i wella trwy ymatebion i hyn.
- Cydnabod yn ffurfiol y dysgu sy'n gofyn am ymdrech ychwanegol gan ddysgwyr mwy galluog.
- Rhoi targedau meintiol eglur i ddysgwyr mwy galluog ynghylch elfennau penodol o'u haddysg, yn ogystal â chyflawniad cyffredinol.

## 10. Cwricwlwm, addysgeg ac asesu

Sylfaen unrhyw strategaeth yw addysgu a dysgu effeithiol sy'n seiliedig ar ymagwedd at ddull o addysgeg a datblygu'r cwricwlwm a fydd yn fuddiol i lawer o ddysgwyr, ac y gellir ei addasu yn unol ag anghenion penodol dysgwyr mwy galluog. Dylai cwricwlwm yr ysgol a dulliau dysgu fwyhau dysgu a pherfformiad dysgwyr mwy galluog, gan ymateb i'w nodweddion dysgu a datblygu eu gwybodaeth a'i sgiliau i'r lefel uchaf. Bydd nodweddion allweddol darpariaeth dda yn cynnwys:

Cwricwlwm a luniwyd i ganiatáu cyfleoedd dysgu heriol a chyfoethog i ddysgwyr mwy galluog
Addysgu gan ddefnyddio cyfleoedd cynlluniedig i sicrhau dyfnder, ehangder a chyflymder wrth ddysgu er mwyn archwilio syniadau
Dysgu sy'n ymwneud â hunangyfeirio ac annibyniaeth
Arferion asesu sy'n mesur cyflawniad a chynnydd dysgwyr yn ddibynadwy ac sy'n llywio strategaethau addysgu a chymorth


Yn gyffredinol, dylai arferion gyd-fynd yn gryf â'r Safonau Addysgu ac Arweinyddiaeth presennol.

Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth

<http://learning.gov.wales/resources/collections/professional-standards?lang=cy>

Bydd y Fframweithiau Rhagoriaeth mewn Addysgu ac Arweinyddiaeth yn cael eu cyflwyno'n raddol ledled rhanbarth y GCA gan gychwyn yn haf blwyddyn academiaidd 2017/18.

## Pum safon newydd y Fframweithiau Rhagoriaeth mewn Addysgu ac Arweinyddiaeth



*Cyf: Llawlyfr 1 y GCA - Y Fframweithiau Rhagoriaeth mewn Addysgu ac Arweinyddiaeth*

Yn gyffredinol, dylai cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi ar gyfer dysgwyr mwy galluog ystyried y canlynol:

- Rhediad dysgu sy'n cyd-fynd â chyflymder dysgu mewn rhai meysydd (sydd ag oblygiadau o ran rheoli dosbarth a ffocws y dysgu yn y dosbarth)
- Dysgu cysyniadol yn cael lle blaenllaw, ac yn cynnwys tasgau sy'n blaenoriaethu datrys problemau, ymholi, dadansoddi ar lefel uchel, defnyddio a syntheseiddio'r hyn a ddysgir, a meddwl gan ystyried y darlun ehangach
- Deunyddiau ac adnoddau blaengar; er enghraifft ffynonellau yn deillio o ddatblygiadau ac ymchwil cyfoes
- Cysylltiadau trawsgwricwlaidd ("cydgysylltiad") ac enghreifftiau go iawn
- Datblygu dysgu ac ymchwilio annibynnol
- Datblygu metawybyddiaeth
- Hyblygrwydd i ganiatáu i ddysgwyr ddilyn eu diddordebau unigol

Dylai strategaethau i addysgu dysgwyr mwy galluog gynnwys y canlynol:

- Tasgau ymchwil annibynnol sy'n heriol iawn
- Cwestiynu, trafod ac iaith dechnegol/iaith gysylltiedig â'r ddisgyblaeth ar lefel uwch
- Rhoi gwybodaeth i ddysgwyr am ddeunyddiau astudio ychwanegol a chanllawiau ynghylch sut i'w defnyddio
- Darparu gwaith cartref mwy heriol a thasgau dysgu annibynnol
- Darparu amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant gwahaniaethol
- Gosod tasgau creadigol pen agored
- Ymgorffori unedau Safon Uwch Atodol mewn gwersi TGAU
- Defnyddio adborth a marcio i sicrhau cynnydd yn unol â gallu

Mae athrawon dosbarth yn gyfrifol am gynllunio a darparu cwricwlwm sy'n adlewyrchu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth bresennol dysgwyr unigol. Dylai athrawon ddefnyddio asesu ffurfiannol i nodi bylchau o ran dysgu a chynnydd a darparu adborth rhagorol i ddysgwyr i sicrhau eu bod yn gwybod beth sydd angen iddynt ganolbwyntio arno er mwyn gwella a dylent:

- Ddefnyddio data manwl ynghylch dysgu blaenorol i gynllunio gwersi sy'n cynnwys manau cychwyn a gorffen priodol a dysgu estynedig ar gyfer dysgwyr mwy galluog.
- Darparu amrywiaeth o dasgau sy'n caniatáu i ddysgwyr gael gwybodaeth a datblygu sgiliau a dealltwriaeth, ac yn defnyddio'r rhain mewn sefyllfaoedd cymhleth neu newydd.
- Canfod pan na fydd dysgwyr yn gweithio'n naturiol ar lefel ddwysach a'i gwneud hi'n fwy gofynnol iddynt herio eu hunain.
- Defnyddio sgiliau cwestiynu effeithiol i alluogi dysgwyr i gyflawni safon gwell ac i leihau bylchau neu gamsyniadau.
- Gan ddefnyddio amcanion a meini prawf llwyddiant eglur i wirio faint mae dysgwyr yn ei ddysgu yn ystod y wers, ac addasu dysgu mewn ymateb i hyn.
- Cofnodi tystiolaeth o addysgu, caffael gwybodaeth, dealltwriaeth gadarn ac ehangu dysgu i sicrhau dealltwriaeth fanwl gywir o anghenion dysgu a chyflawniadau unigolion.
- Defnyddio arferion marcio manwl gywir sy'n seiliedig ar amcanion i fireinio addysgu yn ystod gwersi dilynol er mwyn llenwi bylchau neu ehangu'r dysgu.
- Cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig eglur sy'n ymwneud yn benodol â meini prawf.
- Cynnig arweiniad ynghylch camau nesaf a meysydd i'w gwella.
- Darparu cyfleoedd i wella a datblygu dysgu.
- Defnyddio asesu crynodol fel adnodd diagnostig a rhannu'r wybodaeth hon â dysgwyr.

Mae angen i ddisgwyliadau trwy gyfrwng targedau unigol i ddysgwyr fod yn hysbys i arweinyddion ac athrawon, fel gellir monitro ansawdd addysgu a dysgu mewn cymhariaeth â'r disgwyliadau hyn. Bydd hyn yn caniatáu i athrawon gynyddu lefel yr her i ddysgwyr, a ble ceir anawsterau, ymyrryd yn gynnar.

Dylai ysgolion fod â pholisi eglur a manwl ynghylch cynorthwyo dysgwyr mwy galluog, yn cynnwys y dull o wneud hynny. Dylai hyn fod wedi'i amlinellu mewn dogfen bolisi ar wahân neu wedi'i gynnwys ym mholisi Addysgu, Dysgu ac Asesu'r Ysgol. Dylai hefyd ddisgrifio'r cymorth i ddysgu'n proffesiynol sydd ar gael i staff ysgolion yn ymwneud yn benodol â chynorthwyo dygwyr mwy galluog trwy gyfrwng darpariaeth hyfforddiant i athrawon ym mhob cyfnod allweddol, fel bydd eu haddysgu yn herio'r dysgwyr mwy galluog yn rheolaidd.

## 11. Cymorth ac ymyrraeth

Dylai ysgolion a lleoliadau sicrhau fod cymorth penodol wedi'i dargedu ar gael i ddysgwyr mwy galluog sydd, er enghraifft, yn wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyflawni neu anfanteision cymdeithasol ac economaidd, i'r sydd â galluoedd eithriadol o dda, ac i'r rhai sydd ag anghenion cymdeithasol a/neu emosiynol ychwanegol. Gallai cymorth o'r fath gynnwys y canlynol:



- Ymyriadau dysgu i gynorthwyo i wella uchelgeisiau, cyfoethogi a datblygu sgiliau penodol (e.e. trwy gyfrwng y Grant Datblygu Disgyblion)
- Cymell neu fentora i gynorthwyo disgyblion i ddysgu neu i fod yn fwy uchelgeisiol
- Cyfleoedd i fod yn rhan o grwpiau cymheiriaid, yn yr ysgol neu oddi allan iddi
- Tiwtora neu gwrsela un ac un – anogaeth gyson a phwysleisio agwedd ‘gallaf wneud’
- Arbenigedd allan i gynorthwyo i gyfoethogi a diwallu anghenion eithriadol
- Adnoddau ychwanegol i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad

Dan amgylchiadau pan fydd dysgwyr mwy galluog yn tangyflawni a/neu yn wynebu anfanteision, dylid gosod targedau penodol iddynt, wedi’u hategu gan ymyriadau sy’n cynnwys y canlynol:

- Dysgwyr a rheini yn cyfrannu at osod targedau a chynlluniau gwaith sydd i’w cyflawni o fewn amser penodol
- Manylion y camau gweithredu gofynnol a’r sgoliau y dylid eu dysgu i helpu dysgwyr i gyflawni targedau
- Meini prawf i dystio prosesau/camau gweithredu
- Tystiolaeth ynghylch effaith
- Cyfleoedd rheolaidd i adolygu cynnydd gyda’r dysgwr, diwygio targedau, nodi pa gymorth sy’n ofynnol a mireinio cynlluniau gwaith
- Adolygu rhaglenni ymyrraeth yn rheolaidd er mwyn nodi effaith
- Cynllunio Dysgwr-Ganolog

Efallai bydd ar rai dysgwyr hynod o alluog angen cymorth i’w helpu i ymdopi â galluoedd sy’n eu gwneud yn wahanol i’w cymheiriaid neu sydd ddim yn cyd-fynd â’u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Dylid adolygu darpariaeth ar lefelau’r dosbarth a’r ysgol i sicrhau ei bod yn berthnasol, ac yn aml iawn, gall partneriaethau allanol fod yn adnodd da ar gyfer dysgwyr hynod o alluog.

## 12. Partneriaethau a chydweithio

Yn union fel yn achos grwpiau eraill o ddysgwyr, dylai ysgolion gydweithio’n agos â phartneriaethau, a bod yn ymwybodol o bwysigrwydd partneriaethau, cyfleoedd a gynigir yn sgil cydweithio ag ysgolion a sefydliadau eraill a chyfathrebu â rhieni/gofalwyr.

Dylai ysgolion drafod yn rheolaidd â phrifysgolion, darparwyr eraill a chyflogwyr, ac yn enwedig partneriaid sy’n gallu hyfforddi a datblygu staff ysgolion i ddarparu cyngor ac arweiniad arbenigol i’r myfyrwyr mwyaf galluog, yn enwedig y rhai sy’n wynebu anfanteision o ran y cyfleoedd sydd ar gael iddynt ym maes addysg uwch, prentisiaeth a chyfleoedd eraill am waith.

Gall cyfranogiad cryf gan ddysgwyr trwy agweddau o lais y dysgwr gynorthwyo ysgol i wella trwy helpu’r ysgol i nodi blaenoriaethau i’r dyfodol mewn perthynas â’r strategaeth ynghylch dysgwyr mwy galluog, a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch llesiant, profiadau dysgu ac ansawdd yr addysgu. Trwy gyfranogi, gall dysgwyr ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol gwerthfawr megis sgiliau gwrando a chydweithio ag eraill.

Bydd creu cyfleoedd i ddysgwyr mwy galluog ddod ynghyd fel grŵp cymheiriaid neu gyda dysgwyr gwahanol eu hoedran i rannu diddordebau penodol ac i drafod yn gwella hunanhyder a hunansicrwydd unigolion. Bydd hyn yn datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosïynol ac yn pwysleisio normalrwydd bod yn ddysgwr mwy galluog.

Mae cyfathrebu â rhieni/gofalwyr, a gwranddo arnynt, yn agwedd bwysig o gynorthwyo dysgwyr i wella, a gall hynny fod yn neilltuol o bwysig yn achos dysgwyr mwy galluog, yn cynnwys y rhai sy'n wynebu anfanteision neu rwystrau sy'n eu hatal rhag dysgu. Bydd ennyn diddordeb rhieni a chynnig arweiniad iddynt fel gallant gynorthwyo eu plant i ddysgu hefyd yn cyfrannu at y broses reolaidd o wella dyheadau dysgwyr mwy galluog. Er enghraifft, mae ennyn diddordeb rhieni mewn prifysgolion sy'n bartneriaid yn neilltuol o bwysig yn achos dysgwyr sy'n dymuno astudio cwrs addysg uwch ac sydd yn aelod cyntaf eu teulu sydd wedi dilyn y llwybr hwn. Bydd gwneud hyn yn cynnig sicrwydd i deuluoedd ac yn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r cyfle hwn.

## **Engbreiffiau o bartneriaethau**

### **Prifysgol Caerdydd**

Darllenwch am yr amrywiaeth o weithgareddau ennyn diddordeb sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm a gynigir gan Brifysgol Caerdydd. Chwiliwch am hynny ar sail Ysgol Academaidd, pwnc o'r cwricwlwm, cyfnod allweddol a rhaglen.

<http://sites.cardiff.ac.uk/curriculumsupport/>

### **Prifysgol Rhydychen**

Mae Ehangu Mynediad a Chyfranogi yn cydlynu ac yn cyflawni rhannau o waith allgymorth y swyddfa derbyn israddedigion â phobl ifanc ledled y DU trwy gyfrwng ysgolion ac ar draws cyfnodau. Mae'r tîm yn cydweithio ag adrannau'r brifysgol i gyflawni amrywiaeth o brosiectau sy'n wahanol o ran eu cwmpas a'u maint ynghylch mynediad a derbyn myfyrwyr i Brifysgol Rhydychen a'r cyd-destun addysg uwch ehangach.

<http://www.ox.ac.uk/about/increasing-access/widening-access-and-participation#>

### **STEM Cymru / Cynllun Addysg Peirianeg Cymru Cyf**

Mae gan STEM Cymru dîm o lysgenhadon sy'n ymgysylltu â phobl ifanc ac athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae Cynllun Addysg Peirianeg Cymru yn cynnig cyfle i ddysgwyr gael profiad ymarferol o weithio â diwydiannau, busnesau ac addysgu uwch. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys dylunio, adeiladu a rasio model o gar Fformiwla 1, cydweithio â chwmnïau i ddatrys problemau peirianeg go iawn, cael profiad o fywyd myfyriwr israddedig sy'n astudio peirianeg mewn prifysgol, ac ymchwilio i, llunio a modelu ateb arloesol i broblem amgylcheddol.

<http://www.stemcymru.org.uk/about/>

Mae gan y **Gymdeithas Gemeg Frenhinol** lawer o adnoddau sydd ar gael ar eu gwefan Learn Chemistry sydd wedi'u bwriadu ar gyfer dysgwyr mwy galluog.

Mae llawer o'r adnoddau yn deillio o'u llyfr "Chemistry for the gifted and talented" ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion uwchradd, a gellir eu llwytho i lawr am ddim yma:

<http://www.rsc.org/learn-chemistry/resource/listing?searchtext=gifted>

### **Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru (FMSP)**

Mae'r rhaglen hon yn darparu gwersi mathemateg bellach i baratoi at arholiadau Safon Uwch a Safon Uwch Atodol cyrff dyfarnu yng Nghymru a Lloegr i fyfyrwyr na all gael gwersi mathemateg bellach yn eu hysgolion uwchradd neu golegau yng Nghymru. Maent hefyd yn cynnig hyfforddiant i athrawon i'w galluogi i gynnig darpariaeth.

<http://furthermaths.org.uk/wales>

### **The Brilliant Club**

Diben y Brilliant Club yw ehangu mynediad at brifysgolion hynod o ddetholiadol i ddysgwyr o ysgolion annetholiadol a ariennir gan y wladwriaeth. Maent yn ceisio gwella mynediad trwy recriwtio, hyfforddi a lleoli ymchwilwyr sy'n astudio am ddoethuriaeth a rhai sydd eisoes wedi ennill doethuriaeth mewn ysgolion a cholegau chweched dosbarth i redeg rhaglenni o diwtorialau tebyg i rai a geir mewn prifysgolion i grwpiau bychan o ddysgwyr.

<http://www.thebrilliantclub.org/wp-content/uploads/2015/04/Information-for-Schools-April-2015.pdf>